Senedd Cymru

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar gyfer Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar

Rhagfyr 2021

1. Cefndir

1. Cyflwynwyd Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 2 Mawrth 2021.[1] Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Cafodd y Bil[2] ei ailgyflwyno ar 12 Mai 2021 yn dilyn cynnig cario drosodd.

2. Cwblhaodd y Bil ei gyfnodau yn Nhŷ'r Cyffredin ar 7 Mehefin 2021. Cafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 8 Mehefin 2021. Mae'r cyfnod adrodd wedi'i drefnu ar gyfer 14 Rhagfyr 2021.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

3. Ar 9 Gorffennaf 2021, gosododd Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.[3]

4. Fe wnaethom ni adrodd ar y Memorandwm ar 21 Hydref 2021.[4]

5. Mae paragraffau 7 i 29 o'r adroddiad hwnnw yn nodi'r cymalau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, ac yn nodi lle y mae anghytundeb yn codi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru

6. Ar 24 Tachwedd 2021, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol[5] (Memorandwm Rhif 2) ar gyfer y Bil.

---

[1] Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar, [Bil Tŷ'r Cyffredin 264 2019-21]

[2] Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar, [Bil Tŷ'r Cyffredin 1 2021-22]

[3] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar, Gorffennaf 2021

[4] Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar, Hydref 2021

[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar, Tachwedd 2021

7. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 2 erbyn 2 Rhagfyr 2021.[6]

Gwelliant a wnaed i Atodlen 3 y Bil

8. Mae Memorandwm Rhif 2 yn ymwneud â gwelliant i Atodlen 3 (Diwygiadau canlyniadol) y Bil a gynigiwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi.

9. Mae Memorandwm Rhif 2 yn nodi bod y:

> *"...gwelliant hwn yn dileu'r gwelliannau a fyddai wedi trin yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Uwch fel mater wedi'i gadw yn ôl mewn perthynas â Chymru a bod y cyllid y byddai wedi'i chael drwy Ddeddf Gwyddoniaeth a Thechnoleg 1965 yn fater y tu allan i swyddogaethau Gweinidogion Cymru".*[7]

10. Mae paragraff 10 o Femorandwm Rhif 2 yn esbonio:

> *"Mae Llywodraeth y DU wedi cynnig gwelliannau penodol i'r Bil i ddileu'r diwygiad i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), a fyddai wedi enwi ARIA yn Atodlen 7A, fel y byddai'n dod yn awdurdod penodol. Effaith hynny fyddai cadw cyfansoddiad a chyllid ARIA yn ôl i Lywodraeth y DU a Senedd y DU, a thrwy hynny gyfyngu ar bŵer cydamserol Gweinidogion Cymru (mewn perthynas â Chymru) o dan adran 5 o Ddeddf Gwyddoniaeth a Thechnoleg 1965 ("STA 1965"), yn gyfnewid am lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ("yr MC") o'r enw 'Cytundeb ar Annibyniaeth yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar (ARIA)'. Bwriad yr MC yw sefydlu'r egwyddor na fydd llywodraethau'r DU yn ymyrryd yng ngweithgareddau ARIA yn eu rhanbarthau, ac i ddarparu ar gyfer rhyw lefel o oruchwyliaeth gan Brif Gynghorwyr Gwyddonol y Llywodraethau Datganoledig, er nad yw hon yn ddogfen gyfreithiol rwymol."*

Safbwynt Llywodraeth Cymru

11. Mae Llywodraeth Cymru yn egluro ei safbwynt ym mharagraffau 17 i 24 Memorandwm Rhif 2 ac, i gloi, yn nodi:

---

[6] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar, Tachwedd 2021

[7] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 12

> *"...byddai'n briodol i Senedd Cymru roi ei chydsyniad i'r Bil hwn am ddau reswm: yn gyntaf, caiff y diwygiadau i Ddeddf 2006 eu dileu, gan gadw'r sefyllfa bresennol o ran cyrff a gedwir yn ôl o dan Adran C11 o Atodlen 7A o'r Ddeddf honno – mae hwn yn ganlyniad da i ddatganoli yr wyf wedi ymladd amdano; yn ail, mae'r MC yn dangos bwriad Llywodraeth y DU i ganiatáu o leiaf rhywfaint o ddylanwad i lywodraethau eraill ar lywodraethu ARIA.*
>
> *Rwy'n argymell felly bod Senedd Cymru'n cefnogi gwelliant Llywodraeth y DU i Fil ARIA ac yn rhoi ei chydsyniad ar yr amod bod y gwelliant penodol i'r Bil o ran cadw pwerau yn ôl yn cael ei wneud."*[8]

2. Ystyriaeth y Pwyllgor

12. Fe wnaethom ni ystyried Memorandwm Rhif 2 yn ein cyfarfod ar 29 Tachwedd[9] a chytunwyd ar ein hadroddiad ar 6 Rhagfyr 2021.

Ein barn ni

13. Yn ein hadroddiad ar y Memorandwm, fe wnaethom ni fynegi pryder ynghylch cyflwyno mater cadw penodol newydd i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn* cyfyngu ar gymhwysedd y Senedd i ddeddfu a, chyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol, aethom ati i geisio diweddariad gan y Gweinidog ar drafodaethau â Llywodraeth y DU ar y mater hwn.[10]

14. Rydym felly'n croesawu dileu'r cyfyngiad ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a wnaed gan welliant yn Nhŷ'r Arglwyddi, fel na fydd yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar (ARIA) yn fater a gedwir yn ôl yng Nghymru.

15. Nodwn y bydd Gweinidogion Cymru yn arfer swyddogaethau o dan adran 5 o *Ddeddf Gwyddoniaeth a Thechnoleg 1965* yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol.

16. O ran pwerau cydredol, nodwn sylwadau Llywodraeth Cymru:

> *"Fel arfer, ein barn ni fyddai y dylid cael gwared ar swyddogaethau cydamserol cyn gynted â phosibl. Er y byddai hynny'n ddymunol, credaf ei*

[8] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraffau 26-27

[9] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 29 Tachwedd 2021

[10] Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar, Hydref 2021, paragraff 38, Casgliad 1 ac Argymhelliad 1

> *bod yn annhebygol y byddai Ysgrifennydd Gwladol BEIS yn cytuno i ddileu pwerau cydamserol sy'n deillio o STA 1965. Yn ein trafodaethau â Llywodraeth y DU, ystyriais y byddai'n dderbyniol rhoi consesiwn ar y swyddogaethau cydamserol er mwyn diogelu cymhwysedd Senedd Cymru."*[11]

17. Nodwn hefyd, er mwyn sicrhau bod y cyfyngiad yn cael ei ddileu, fod y negodiadau rhynglywodraethol wedi arwain at Lywodraeth Cymru yn ymrwymo i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth y DU ynghylch ARIA. Rydym yn nodi, ac yn tynnu sylw'r Senedd, at y paragraffau a ganlyn ym Memorandwm Rhif 2:

> *"Mae'r cais gwreiddiol am gyfranogiad llywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon y Deyrnas Unedig yn ARIA wedi'i fodloni'n rhannol drwy sefydlu'r MC sy'n sicrhau rhywfaint o ymwneud ag ARIA drwy Brif Gynghorydd Gwyddonol Llywodraeth y DU. Rydym yn cydnabod bod hyn yn wan o safbwynt ein hegwyddorion ond mae'n gyfaddawd er mwyn dileu'r diwygiadau fyddai'n cadw pwerau Deddf 2006 yn ôl...*
>
> *Er nad yw'r MC yn ddelfrydol, ein prif flaenoriaeth a budd cyfansoddiadol yw sicrhau bod y cynnig i gadw pwerau yn ôl yn cael ei ddileu o'r Bil. Gwnaeth BEIS hi'n glir i mi fod hyn yn dibynnu ar gytundeb ar yr MC. At hynny, mae'n annhebygol iawn y bydd gan BEIS unrhyw awydd i fynd i'r afael â'r pwerau cydamserol presennol. Gan fod fy mhrif amcan wedi'i gyflawni, credaf mai'r cynnig a wnaed gan BEIS yw'r canlyniad gorau y gellid ei gael ac mae'n gyfaddawd synhwyrol o dan yr amgylchiadau."*[12]

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cyhoeddi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth o'r enw 'Cytundeb ar Annibyniaeth yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar' cyn gynted â phosibl ac yn ymrwymo i gyflwyno adroddiadau rheolaidd ar weithgaredd mewn perthynas â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth o dan y Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol rhwng Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru.[13]

Yn ein hadroddiad ar y Memorandwm, fe wnaethom ni gydnabod safbwynt Llywodraeth Cymru na fydd yn argymell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r Bil. Nodwn, o ganlyniad i'r gwelliant a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU, ac sy'n ddarostyngedig i Femorandwm Rhif 2, fod Llywodraeth Cymru bellach yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r Bil.

---

[11] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 19

[12] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraffau 20 a 23

[13] Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol rhwng Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2021